

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 92

Key Language

more about ordinal numerals
'na = dyna
dygodd

New Words

tystysgrif geni	a birth certificate
daw	will come (from <i>dod</i> 'to come')
cynt	before, earlier
mae'n well i mi ei throi hi	I'd better leave
mae rhywbeth yn bod	something's wrong
goleuadau	lights (plural of 'golau')
mae rhywbeth o'i le	something's wrong
llygad y ffynnon	the heart of the matter (literally the eye of the fountain)
gwraidd y broblem	the root of the problem
marw gorn	absolutely dead
gorau po gyntaf	as soon as possible
naill ai ... neu	either ... or
ymlaen llaw	in advance, literally before hand
malu awyr	idle chatter
chwarae mig	to play mind games, literally hide and seek
dygodd	took (past tense of 'dwyn')
er gwaethaf	in spite of
chdi piau	you own, literally it's you who owns
fawr o...	not much...
ymdopi	to cope
cer i grafu	get lost, literally go and scratch
chdithau (NW)	you too
a dweud y lleiaf	to say the least
roeddwn i am i ni siarad	I wanted us to talk
hwyliau da	good spirits
wnelet ti?	would you?

It's been quite a week for Brian - Jac's pressing for his overdue rent; his son Rhodri doesn't seem to be settling in at his new school; and he's not convinced that Frank is even his child!

Brian - Frank.

Wendy - Ie? Beth am 'bytu fe?

Brian - Pryd yn union gafodd o ei eni? Pryd mae ei ben-blwydd o?

Wendy - Awst y seventeenth - yr ail ar bymtheg.

Brian - Oes gennyt ti dystysgrif geni?

Wendy - Oes, wrth gwrs.

Brian - Dw i eisiau ei weld o.

Wendy - Pam? You don't think that Frank's your baby, do you? Is that it? Is that what you're getting at Brian? Is that what's been mulling in your head these past few days?

Is Brian being over suspicious?

Main Grammatical Points

1. Wendy claims that Frank's birthday is the seventeenth of August - yr ail ar bymtheg o Awst.

seventeenth is an ordinal number - and we looked at some of these recently.
Let's remind ourselves of them again. The first four are irregular.

cyntaf first; *ail* second; *trydydd* third; *pedwerydd* fourth.

They then follow a more regular pattern from the fifth to the tenth:
pumed; *chweched*, *seithfed*, *wythfed*, *nawfed*, *degfed*

But when we reach the eleventh of the month we say *yr unfed ar ddeg* or literally 'the first on ten'. As we've just heard, *cyntaf* is the word for first, so you'd expect eleventh to be *y cyntaf ar ddeg*, but guess what - it's irregular! So it becomes *yr unfed ar ddeg*

Likewise sixteenth is *yr unfed ar bymtheg* (literally the first on fifteen) and the seventeenth is *yr ail ar bymtheg* (literally the second on fifteen). But don't worry if you find the ordinal numbers daunting. If you want to say when your birthday is, it is perfectly acceptable to say *Awst un deg saith*. - literally August seventeen.

-
2. Conversations in Welsh seem to be peppered with the little word 'na', which doesn't seem to make any sense as a negative in certain instances. Well, that's because it isn't.

In discussing the uncertainty of little Frank's date of birth Wendy says:

'Na pryd gafodd Frank 'i eni - That's when Frank was born.

and

'Na'r gwir - That's the truth'.

'Na' here, is in fact an abbreviated form of *dyna* 'that'. 'Dyna' therefore becomes 'Na'.

- 3 When Brian reproaches Jac for running off with his wife, he says:

Chdi ddygodd fy ngwraig i.

You know that the *-odd* ending indicates the past tense. For example - *edrych* which means 'to look' becomes *edrychodd* in the past tense - 'he looked'. But it's not always as easy as this. Dygodd is the past tense of the verb *dwyn* which means 'to steal'. It's *dygodd* not *dwynodd*, which is what you'd expect.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 274

Frank's birth certificate still hasn't arrived and Brian's getting impatient.

Meanwhile, Agnes is worried about Rhodri - she knows something's wrong but can't put her finger on it.

Geirfa

daw	will come (from <i>dod</i> 'to come')
cynt	before, earlier
mae'n well i mi ei throi hi	I'd better leave
mae rhywbeth yn bod	something's wrong
goleuadau	lights (plural of 'golau')
mae rhywbeth o'i le	something's wrong
llygad y ffynnon	the heart of the matter (literally the eye of the fountain)
gwraidd y broblem	the root of the problem
marw gorn	absolutely dead
gorau po gyntaf	as soon as possible
naill ai ... neu	either ... or

Golygfa 1

Wendy - Smo ti wedi gwneud tost i fi ynte?

Brian - Naddo. Doeddwn i ddim yn siwr os oeddech chdi'n mynd i ddod i lawr i'r gegin yma neu beidio...

Wendy - Gwnaf i dost i fi fy hunan ynte.

Brian - Mae'r post wedi cyrraedd hefyd...

Wendy - Ydy e? Mae'n gynnar y bore yma. Oes rhywbeth i fi?

Brian - Junk mail gan fwyaf. Ond dim byd gan dy fam chwaith.

Wendy - Dw i wedi ei ffonio hi, Brian. Glywaist ti fi'n ei ffonio hi neithiwr. Yn dofe? A chlywaist ti fi'n gofyn iddi hala birth certificate Frank lan i fi o'r Rhondda.

Brian - Pam mae hi heb ei bostio fo ynte?

Wendy - Sa i'n gwybod. Efallai daw e bore yfory...

Brian - Dyna beth ddywedaist di ddoe. A'r diwrnod cynt hefyd.

Wendy - Edrycha: Awst y seventeenth. Dyna pryd cafodd Frank ei eni. Mae e ar y dystysgrif. Mewn du a gwyn.

Brian - lawn. Os wyt ti'n dweud. Ond mi goelias i o pan welaf i o.

Wendy - Dyna'r gwir, Brian. Pam wyt ti mor...mor suspicious? Os dwyt ti ddim yn credu...Wel...Gweitha fe mas. Roeddwn i gyda ti - ti a neb arall - yr adeg yma flwyddyn ddiwethaf...Doeddwn i ddim? Ti yw tad Frank. Neb arall...

Brian - lawn ynte: gwaith yn galw: well i mi ei throi hi am y garej yna...

Wendy - You're being really hurtful, Brian...

Brian - Dwyt ti ddim yn helpu dy hun wyt ti? Ffonia dy fam eto!

Golygfa 2

Agnes - Rhodri?

Rhodri - Beth nawr eto?

Agnes - Dy fag ymarfer corff. Paid â'i anghofio fe...

Jac - Gwelwn ni di yn ôl adref amser te ...

Agnes - Paid ag edrych mor drist...Gwena nawr: wnaiff e ddim drwg i ti.

Yffach...! Welaist ti'r olwg ar ei wyneb e?

Agnes - Wyt ti'n meddwl dylswn i gael gair gyda'r pennaeth blwyddyn?

Jac - A dweud beth?

Agnes - Dweud fy mod i'n becsio ei fod e heb setlo....

Jac - Mae o'n mynd i'r ysgol bob bore...

Agnes - Achos fy mod i'n mynnu. Ond fyddai fe ddim yn ffwdanu mynd fel arall...

Jac - Ond y pwynt ydy, Agnes: mae Rhodri yn mynd i'r ysgol bob dydd a mae o'n gwneud ei waith...

Agnes - Pam nad yw e byth yn sôn am 'bytu'r ysgol ynte? Wyt ti wedi sylwi? So fe byth moyn trafod neb na dim...

Jac - Yn ei oed o, doeddwn i ddim chwaith... Fel yna mae bechgyn!

Agnes - Ateb di hyn i fi ynte: pam nad yw e byth wedi dod â'r un ffrind yn ôl gartref gyda fe?

Jac - Dw i'n meddwl dy fod ti'n poeni gormod heb fod eisiau...

Agnes - Mae rhywbeth yn bod. Mae rhywbeth sydd ddim cweit yn iawn. Dw i'n gwybod bod -

Jac - Hei, watshia! Golau coch ar y goleuadau yma.

Agnes - Mae rhywbeth o'i le...Dw i'n gwybod bod rhywbeth mawr o'i le...A dw i'n benderfynol o fynd at lygad y ffynnon hefyd...

Jac - Llygad y ffynnon? Beth mae hynny'n feddwl?

Agnes - Mynd at y gwirionedd... mynd at wraidd y broblem. Dw i'n benderfynol o dreul dod i wybod beth yn gymwys sy'n ei fecso fe...Wyt ti'n meddwl ei fod e'n cael ei fwlio?

Golygfa 3

Chris - Bore da, chief!

Brian - Hmph.

Chris - Oh dear. Looks like I should have kept my big gob shut. Sori. Yn amlwg, dydy hi ddim yn fore da i ti o gwbl.

Brian - Nac ydy. Ac ar ben bob dim mae fy blydi watsh i ar y blinc. Edrycha...

Chris - Ysgwyd hi dipyn bach ynte...That usually does the trick.

Brian - Na. Hollol farw gorn! Damia - bydd rhaid i mi drefnu i'w thrwsio hi rwan...Mwy o 'hassle'...

Chris - Dw i'n gwybod am foi sy'n trwsio watshys...Emyr.

Brian - Ydy o'n ddrud?

Chris - Na. Dere â hi i fi...

Brian - Dyma chdi.

Chris - Gaf fi hi yn ôl i ti erbyn prynhawn yfory. No problemo. Os nad yw Emyr yn rhy fishi, wrth gwrs...

Brian - Gorau po gyntaf. Dw i'n casáu byw heb fy watsh.

Chris - Hei - unrhyw lwc wedyn?

Brian - Lwc beth?

Chris - Gyda certificate geni Frank?

Brian - Ddaeth yna ddim byd efo'r post y bore yma - os mai dyna beth ti'n trio ei ofyn...

Chris - Ie. Dyna'n gymwys beth dw i'n ei ofyn...Pam ynte?

Brian - Naill ai mae mam Wendy heb ei bostio fo...Neu does dim tsysgrif yn bod...

Chris - What did I say yesterday...?

Brian - Ddim y chdi ydy'r cyntaf i amau hynny. Mi wnaeth yr un peth fynd trwy fy meddwl i hefyd. Fwy nag unwaith, ers i mi ofyn iddi am gael ei weld o...

Chris - Mae'n rhaid i ti gael ei weld e.

Brian - Oes. Wrth gwrs. Sefyll i reswm onid ydy?

Chris - 'Coz the alternative doesn't bear thinking about - does it, man?

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 275

Jac meets up with Brian and enjoys every minute of winding him up. He claims to have good news and bad news for him, but Brian is less than impressed with the 'good' news.

Geirfa

ymlaen llaw	in advance, literally before hand
malu awyr	idle chatter
chwarae mig	to play mind games, literally hide and seek
dygodd	took (past tense of 'dwyn')
er gwaethaf	in spite of
chdi piau	you own, literally it's you who owns
fawr o ddewis	not much choice
ymdopi	to cope
cer i grafu	get lost, literally go and scratch

Golygfa 1

Brian - Jac? Beth wyt ti eisiau?

Jac - Hold your horses, mate...Dear oh dear! I've hardly reached the bar yet...Blimey! Steady on...

Brian -Dw i wedi setlo fy rent am y mis diwethaf. Does arnaf i yr un geiniog arall i chdi. A dydw i ddim yn mynd i dalu ymlaen llaw, os mai dyna beth sydd ar dy feddwl di.

Jac - Brian - just calm down...Calm it, will you? Think about your poor blood pressure...

Brian - Dw i heb ddwad yma i falu awyr efo chdi, Jac Whelan...

Jac - Hei, hei - it's a public place: cut the aggro...

Brian - Pam wnest ti fy ffonio i? Huh? Pam wnest ti'n fy ffonio i y bore yma? Beth wyt ti eisiau?

Jac - Gad i ni fynd i eistedd draw at y bwrdd acw...

Brian - I beth? Dydw i ddim eisiau treulio mwy o amsar yn dy gwmni di na sydd rhaid i mi.

Jac - Beth wyt ti'n yfed?

Brian - Dw i'n iawn.

Jac - Gad i fi brynu drinc i ti.

Brian - Dw i'n iawn.

Jac - For old time's sake, eh?

Brian - Hanner ynte.

Jac - Ers pryd wyt ti'n ddyn hanner, Brian Rees?

Brian - Lager.

Jac - A gaf i yr un peth...Gad i fi ddal llygad y barman...Lle mae Michelle y prynhawn yma?

Brian - Apwyntiad. Mae hi wedi mynd at y deintydd. Bydd hi yn ôl tua dau - yn ôl beth ddeallais i gan y boi bach yna y tu ôl i'r bar...

Jac - Oi, mêt? Ydy hi'n bosib i ti ddod â dau beint o lager draw yma?

Dw i heb dy weld ti ar y clogwyni ers sbel fach rwan...Wyt ti wedi ffeindio hobi newydd? Birdwatching bach yn passé ydy o?

Brian - Yli, dw i'n mynd - mae gen i waith i'w wneud..

Jac - Eistedd, eistedd. Brian, plis...

Brian - Dweud dy ddweud ynte a phaid â chwarae mig efo fi.

Jac - Dw i eisiau trafod...

Brian - Trafod beth?

Jac - Er gwaethaf pob dim sydd wedi digwydd rhyngddon ni'n dau...Our somewhat troubled, tormented recent history...

Brian - Chdi wnaeth ni'n dau yn elynion. Ddim fi!

Jac - Beth bynnag...

Brian - Chdi ddygodd fy ngwraig i oddi wrthyf i. A wnaif i byth faddau i chdi am hynny.

Jac - Pam ddim? Dw i wedi maddau i ti am drïo fy lladd i...

Diolch met. Rho fo i lawr ar y tab. A rho ddrinc yn y banc i ti dy hun, met...lechyd da, Brian...

Jac - So...Mae amser yn mynd yn ei flaen, Bri...Old passions give way to new passions...We grow older by the day...We become mellow...

Brian - Pam ddylai hynny newid y ffordd dw i'n teimlo tuag atoch chdi? E?

Jac - Pam wyt ti eisiau vendetta? Pan mae pob dim gennyf ti? Gwraig? Plant? Mmmm?

Achos dw i wedi bod yn rhoi fy thinking cap on...

Brian - Wyt ti, wir?

Jac - Ydw. A'r rheswm gwnes i dy ffonio di y bore yma oedd bod dau beth dw i eisiau'u trafod efo ti, mêt...Un peth da ac un peth drwg...

Brian - lawn. O'r gorau. Dywed wrthyf fi ynte: Beth ydy'r peth da a beth ydy'r peth drwg wyt ti eisiau'u dweud wrthyf i, Jac?

Jac - Pa un wyt ti eisiau glywed gyntaf, mêt? Toss a coin?

Brian - Y newydd drwg am wn i...

Jac -Doeddet ti ddim yn arfer bod yn gymaint o pessimist...

Brian - Galw fo'n post-natal depression.

Jac - Y newyddion drwg ydy fy mod i eisiau gwerthu'r tŷ rwyt ti a Wendy a'r plant yn byw ynddo fo, mêt. Dw i angen y pres. Felly dw i'n rhoi advanced warning i ti... Rhybudd.

Brian - Wel, chdi piau'r tŷ. Beth allaf i wneud am y peth?

Jac - Dw i'n falch dy fod ti'n cytuno...

Brian - Does gen i fawr o ddewis nac oes? Ond cofia mai fi piau hanner y tŷ rwyt ti'n byw ynddo fo rwan hefyd.

Jac - Wyt ti eisiau clywed y newyddion da?

Brian - Dywed.

Jac - Dw i eisiau mynd yn ôl i fusnes...A dw i'n edrych ar gwpl o opsiynau...Ond fyddaf i ddim yn medru ymdopi ar fy mhen fy hun, Brian, mêt - ac felly gwnes i feddwl efallai...

Jac - Hei, Brei? Lle wyt ti'n mynd? Dw i heb orffen eto...

Brian - Dw i'n gwybod beth sydd ar dy feddwl di....A'r ateb ydy NA! Jyst cer i grafu, wnei di?!

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 276

Agnes is worried about Rhodri, and wants Brian to have a word with him.

Brian is still waiting for Frank's birth certificate to arrive whilst Chris manages to wheedle some very personal information out of Wendy.

Geirfa

chdithau (NW)	you too
a dweud y lleiaf	to say the least
mynd am dro yn y gadair olwyn	to go for an outing in the wheel chair
roeddwn i am i ni siarad	I wanted us to talk
hwyliau da	good spirits
llygad y ffynnon	the heart of the matter, literally, the eye of the fountain
wnelet ti?	would you?

Golygfa 1

Chris - 'Morning, campers...

Brian - Hmm? O ie, bore da i chdithau hefyd...

Chris - Wel?

Brian - Wel beth?

Chris - Ddaeth rhywbeth i ti trwy'r post y bore yma ynte?

Brian - Naddo.

Chris - Dim birth certificate o'r Rhondda?

Brian - Dim tystysgrif geni o'r Rhondda - na.

Chris - Bit of a problem....

Brian - A dweud y lleiaf.

Chris - Beth ddwedodd Wendy wrthyt ti ynte?

Brian - Aeth hi ar y ffôn yn syth...Ffonio'i mam...Ond yn ôl ei mam hi, mae hi yn bendant wedi postio'r dam peth i ni...

Chris - Pam nad yw e wedi cyrraedd ynte?

Brian - Dywed ti wrthyf i.

Chris - Ydy e wedi mynd ar goll yn y post wyt ti'n meddwl?

Brian - Efallai...

Chris - Neu - the alternative being: has Wendy's mum actually posted the certificate or not? Eh?

Helo? Ydy, mae e. Reit fan hyn nawr. Brian...I ti...

Brian - Pwy sydd yna?

Chris - Your ex. Eisiau gair...

Brian - Diolch...

Agnes? Ie? Beth sydd?

Golygfa 2

Agnes - Dere mewn...

Brian - Ydy Jac yma?

Agnes - Nac ydy. Mae e wedi mynd mas am dro yn y gadair olwyn.

Brian - Pam wyt ti eisiau fy ngweld i? Pam na fuasech chdi wedi gallu dweud dy ddweud ar y ffôn y bore yma?

Agnes - Roeddwn i am i ni siarad wyneb yn wyneb. Dishgled?

Brian - Ddim diolch. Dw i ar fy ffordd i weld rhywun, felly does gen i ddim lot o amser...

Agnes - Byddaf i mor fyr ac i bwrpas ag y gallaf i fod ynte. Mae hyn 'bytu Rhodri...

Brian - Pam? Beth mae o wedi ei wneud?

Agnes - Dyna'r peth...Dyna pam mae hyn mor anodd...Smo fe wedi gwneud dim byd yn benodol...Ond dw i'n becco amdano fe...

Brian - Pam? Roedd o i'w weld mewn hwyliau da iawn y tro diwethaf y gwelais i o. Ac wyt ti'n cofio'i ben-blwydd o? Y noson bowlio sgitls yna? Roedd o i'w weld yn hapus iawn y noson honno, onid oedd?

Agnes - I ti efallai...Ond so ti'n ei weld e bob dydd...
 Brian - Dw i ddim cweit yn deall beth wyt ti'n trio'i ddweud, Agnes...
 Agnes - Dweud dw i bod rhywbeth yn ei fecso fe. Ond so fe'n fodlon siarad gyda fi. Dw i wedi treal.
 Ond bob tro dw i'n ceisio mynd at lygad y ffynnon, mae e'n cau lan...
 Brian - Mae o'n hapus yn yr ysgol.
 Agnes - Ydy e?
 Brian - Mae o i'w weld yn ddigon hapus i mi...
 Agnes - Roeddwn i'n amau ei fod e'n cael ei fwlio...Ond pan siaradais i â phennaeth ei flwyddyn e,
 dywedodd hi fod dim achos i fi boeni o gwbl...
 Brian - Fasech chdi'n leicio i mi siarad efo hi?
 Agnes - Wnelet ti? Dw i'n credu efallai y cei di fwy o sens na fi...Ac efallai ei di at wraidd y broblem.

Golygfa 3

Wendy - Haia? Ydy Brian 'bytu'r lle?
 Chris - Na. Mae e gydag Agnes...
 Wendy - Agnes?
 Chris - Ie. Ffonodd hi y bore yma, ac aeth Brian draw i'r tŷ 'bytu hanner awr yn ôl...Allaf i dy helpu ti?
 Wendy - Ddwedodd e pa mor hir fyddai fe?
 Chris - Na. It all sounded a bit urgent, though...
 Wendy - Urgent?
 Chris - Wel...Mild panic ...Wyt ti'n gwybod...Agnes yw Agnes ontefe?
 Wendy - Ie...Dw i'n gwybod beth wyt ti'n feddwl. Daft old bat that she is...
 Chris - Anyway...Wyt ti am i fi roi neges iddo fe?
 Wendy - Nac ydw... Na...Mae'n O.K...Diolch i ti.
 Chris - Wyt ti'n edrych bach yn...What's the word I'm looking for...Preoccupied?
 Wendy - Brian sydd wedi bod yn...
 Chris - Yn beth?
 Wendy - Dim. Na. Dim. I shouldn't say. It's private.
 Chris - Go on. Wyt ti wedi dechrau nawr...
 Wendy - Allaf i ddim...Onest...Paid â gofyn i fi...
 Chris - Edrycha - ti'n gallu fy nhrystio i...Whatever you say won't go any further...Scouts honour.
 Wendy - Dw i mewn twll...
 Chris - Twll? Pam?
 Wendy - I've told Brian a lie - a little white lie...But it's still a lie...And I'm just digging myself deeper and deeper into this dark hole...Gwnaeth Brian ofyn am weld birth certificate Frank, rwy't ti'n gweld...
 Chris - Ond beth? Does dim un?
 Wendy - Na, na. Mae yna un. It's right here...But for some stupid reason - I don't know why I said it - but when he asked me when Frank was born, I said it was on the seventeenth of August, whereas in fact, it was back in July.

Synopsis

Things haven't improved much for Brian - Frank's birth certificate still hasn't arrived, so Wendy tries to appease him.

Jac's not only been pressing Brian for rent arrears but he's now announced that he wants to sell the house.

Finally Brian hears from Agnes that their son, Rhodri, has been having problems.

Test yourself

1. Mari was born on the 16th of April. How would you say this date?
 - (a) Cafodd Mari ei geni ar yr **unfed ar bymtheg o Ebrill.**
 - (b) Cafodd Mari ei geni ar yr un deg chweched o Ebrill.
 - (c) Cafodd Mari ei geni ar y cyntaf ar bymtheg o Ebrill.
2. What is the past tense of *dwyn*?
 - (a) dwynodd
 - (b) **dygodd**
 - (c) dwgodd
3. If you were going to head off for somewhere, would you?
 - (a) ei droi o
 - (b) **ei throi hi**
 - (c) ei tharo hi
4. How would you translate 'the sooner the better'?
 - (a) gorau po gyflyma
 - (b) gorau po fwyaf
 - (c) **gorau po gynta**
5. 'Na'r gwir'. Does this mean?
 - (a) It's not true
 - (b) **That's the truth**
 - (c) Those are the men
6. *The heart of the matter* in Welsh is:
 - (a) calon y mater
 - (b) **llygad y ffynnon**
 - (c) calon y ffynnon

